Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 21.01.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Parhau â'r cynllun i lacio cyfyngiadau covid yn raddol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi bod y cynllun graddol i ddychwelyd i gyfyngiadau Lefel Rhybudd 0 ar 28 Ionawr 2022 yn parhau, oni bai fod y sefyllfa iechyd gyhoeddus yn gwaethygu. O heddiw, 21 Ionawr 2022, bydd yr holl weithgareddau awyr agored yn symud i Lefel Rhybudd 0 ac o ddydd Gwener 28 Ionawr 2022, bydd Cymru yn dychwelyd i Lefel Rhybudd 0 ar gyfer yr holl weithgareddau a mangreoedd dan do. I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i:

https://llyw.cymru/parhau-ar-cynllun-i-lacio-cyfyngiadau-covid-yn-raddol-y-prif-weinidog

Mae canllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer busnesau lletygarwch, sy'n ystyried y newidiadau sydd wedi'u gwneud o heddiw, 21 Ionawr 2022 ymlaen, (ond nad ydynt yn ymdrin ag unrhyw newidiadau posibl o 28 Ionawr 2022), ar gael ar:

https://www.ukhospitality.org.uk/page/WalesGuidance

Gellir dod o hyd i gardiau gweithredu mesurau rhesymol posibl wedi'u diweddaru ar gyfer lleoliadau lletygarwch ar:

https://llyw.cymru/lleoliadau-lletygarwch-megis-tafarndai-bwytai-chaffis-cerdyn-gweithredu-mesurau-rhesymol-posibl-0

# AROLWG: Addysg a'r economi – cwrdd ag anghenion sgiliau busnesau Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd eisiau deall yn well anghenion sgiliau busnesau lleol, presennol ac at y dyfodol, a meddwl sut gall Ysgolion Uwchradd lleol baratoi eu disgyblion ar gyfer y byd gwaith. Helpwch, os gwelwch yn dda, drwy gymryd rhan mewn arolwg byr, a ddylai gymryd llai na 5 munud i'w gwblhau, ewch i:

https://www.surveymonkey.co.uk/r/7WP5YJS

# ARIANNU: Pob un o'r tair cronfa fusnes Lefel Rhybudd 2 bellach ar agor

Mae'r tair cronfa i gefnogi busnesau yr effeithiwyd arnynt gan gyfyngiadau Lefel Rhybudd 2 bellach ar agor. Gall busnesau lletygarwch, hamdden, manwerthu a thwristiaeth cymwys yn ogystal â'u cadwyni cyflenwi – gan gynnwys gweithwyr llawrydd yn y diwydiannau creadigol – hawlio cyllid os yw'r cyfyngiadau a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2021 wedi effeithio arnynt.

- Mae'r Gronfa Argyfwng NDR yn cynnig cymorth i fusnesau sy'n derbyn bil Treth Busnes Annomestig

- Gall y Gronfa Argyfwng Busnes gefnogi busnesau nad ydynt yn atebol i dalu ardrethi busnes

- Mae’r Gronfa Cadernid Economaidd yn gallu darparu cymorth ychwanegol i fusnesau mwy

Mae mwy o wybodaeth am y dair cronfa ar gael ar:

https://bit.ly/CyfyngiadauRhagfyr2021

## CYFLE: Lansio cystadleuaeth gwerth £1.3 miliwn i ddatblygu technoleg Telexistence

Mae’r Rhaglen Telexistence yn fenter ar y cyd rhwng yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) a phartneriaid i ariannu datblygiad technoleg, sy’n galluogi rhywun i gael teimlad amser real o ryngweithio ag amgylchedd anghysbell. Mae hyd at £1.3 miliwn ar gael a gall ymgeiswyr bellach gyflwyno cynigion y gellid dyfarnu hyd at £400,000 ar eu cyfer. I ddarganfod mwy, ewch i:

https://www.gov.uk/government/news/1-3million-competition-launched-to-find-next-telexistence-technology

## TECH: Cynllun Help to Grow: Digital

Cynllun newydd ledled y DU i helpu busnesau bach a chanolig i fabwysiadu technolegau digidol ydi Help to Grow: Digital, gan gynnig cyngor am ddim a hyd at £5,000. I ddarganfod mwy, ewch i:

https://www.gov.uk/business-finance-support/help-to-grow-digital-uk

Mae cymorth am ddim i helpu busnesau fynd yn ddigidol, gan gynnwys gweminarau a chymorth un-i-un wedi’i deilwra, hefyd ar gael gan Cyflymu Cymru i Fusnesau. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy

# DIGWYDDIADAU: Digwyddiadau Economi Ymweld Cynaliadwy 2035 – cofrestrwch rŵan

Bydd cofrestru ar gyfer gweithdy 27 Ionawr 2022, sy'n targedu ardaloedd Pwllheli, Llŷn, Ardudwy, Dysynni, Dolgellau a Bala Penllyn, yn cau ar Dydd Llun, 24 Ionawr 2022. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://www.eventbrite.com/e/twristiaeth-cynaliadwy-gwynedd-eryri-sustainable-tourism-registration-239237484757

Bydd cofrestru ar gyfer yr ail ddigwyddiad ar 7 Chwefror 2022, ar gyfer ardaloedd Bangor, Bethesda, Caernarfon, Llanberis, Dyffryn Nantlle, Porthmadog/Penrhyndeudraeth, Bro Ffestiniog a Chonwy Wledig, yn aros ar agor tan 2 Chwefror 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.eventbrite.com/e/twristiaeth-cynaliadwy-gwynedd-eryri-sustainable-tourism-registration-242705186747

# YMGYNGHORIAD: Diwygio'r Flwyddyn Ysgol – Digwyddiadau ymgysylltu ar-lein

Mae Llywodraeth Cymru eisiau clywed beth mae busnesau, y sector dwristiaeth ac eraill yn ei feddwl am strwythur y flwyddyn ysgol bresennol, os/sut yr hoffent ei weld yn cael ei newid a beth yw eu barn am ddewisiadau eraill posibl. Mae dau ddigwyddiad ymgysylltu wedi'u trefnu ar 2 Chwefror 2022, 4:00pm-5:30pm a 3 Chwefror 2022, 8:30am-10:00am. I archebu lle, ewch i:

https://www.smartsurvey.co.uk/s/schoolyearreform/?lang=619347

# DYSGU: Rhaglen Twf Busnes 20Twenty

Gall Rhaglen Twf Busnes 20Twenty helpu i ddatblygu eich arweinyddiaeth a gweithredu strategaeth twf ar gyfer eich busnes. Mae'r rhaglen 10 mis Sefydliad Rheolaeth Siartredig (CMI) lefel 5-7 ar gyfer Cyfarwyddwyr/Uwch-Reolwyr yn dechrau

ar 1 a 2 Mawrth 2022. Ariennir y rhaglen hon hyd at 80% gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://20twentybusinessgrowth.com/cy/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru